# Cyngor Cymdeithas Cynwyd

Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Nos Fawrth, 5ed o Ebrill, 2016, yn y Neuadd Bentref am 7.30 yr hwyr.

**Yn Bresennol**

- Cefyn Williams
- Ifan Williams
- Nan Jones
- John Evans
- Llion Jones
- Gwen Wynne
- David Rhys Jones, Heddlu Gogledd Cymru
- Dwy aelod o'r cyhoedd o Landrillo

**Ymddiheuriadau**

- Ann Owen
- Aelwyn Guest
- Emrys Bodden

Cyn ymdrin â materion y Cyngor, dymunwyd gwellhad buan i'r trigolion sy'n dioddef o anhwylder iechyd. Mae nifer yn y cylch yn cwyno, a chydymdeimlwyd a'r rhai sydd yn galaru.

**Digwyddiadau'r pentref**

- Pethau'n dawel
- Pryder am y difrod i ffenestri'r hen giosc

**Cofnodion y Cyngor**

Darllenwyd y Cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 1 Mawrth 2016, a chafwyd yn gywir, gyda dim materion yn codi o'r cofnodion. Hefyd, derbyniwyd agendas Sir Ddinbych.

**Ymweliad**

David Rhys Jones (Gwylio Cyflymder Cymunedol)
Siaradodd yn drwyadl ac effeithiol am waith ei adran. Etholwyd Ifan Williams a Llion Jones fel cydraddau dros Cynwyd.

**Materion Ariannol**

- Treialon Cŵn Defaid yn Llandrillo: £100.00

**Cynllunio**

Dim cynllunio ar hyn o bryd.

**Gwybodaeth ac UFA**

- Iaith y Cyngor yw Cymraeg yn arferol. Y clerc neu un unigolyn i gyfieithu i'r Saesneg os oes angen
- Cyflwr y ffyrdd yn enwdig Ffordd y Rhaeadr.
- Gweld am gael Bin Gwyrdd i'r Fynwent Newydd.
- Syniad i symud y ciosc i ganol y pentref, a gosod diffibriliwr ynddo – rhaid ystyried yn fanwl.

**Cyfarfod Nesaf:** Dydd Mawrth, 3ydd o Fai, 2016